



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Social Services and Well-being (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu.
Amendments marked * are new or have been altered.

Mae'r testun mewn italig wedi'i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol i
esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo'r darlennydd. Nid yw'r testun yn rhan o eiriad y
gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain
its purpose and to aid the reader's understanding. The text does not form part of the
amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

| | |
|---------------------|--------------------|
| Sections 69 to 76 | Adrannau 69 i 76 |
| Schedule 1 | Atodlen 1 |
| Sections 77 to 133 | Adrannau 77 i 133 |
| Schedule 2 | Atodlen 2 |
| Sections 134 to 169 | Adrannau 134 i 169 |
| Schedule 3 | Atodlen 3 |
| Sections 170 to 183 | Adrannau 170 i 183 |
| Section 1 | Adran 1 |
| Long title | Teitl hir |

Gwenda Thomas 174

Section 69, page 52, line 33, leave out subsections (5) to (8).

Adran 69, tudalen 52, llinell 35, hepgorer is-adrannau (5) hyd at (8).

Gwenda Thomas 175

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 72, tudalen 53, llinell 21, hepgorer 'preswyliaid' a mewnosoder 'preswyltio'.

Gwenda Thomas 176

Section 74, page 55, after line 23, insert—

'() Where a local authority is satisfied that the circumstances of the child to whom a plan relates have changed in a way that affects the plan, the authority must—

- (a) carry out such assessments as it considers appropriate, and
- (b) revise the plan.'

Adran 74, tudalen 55, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

'() Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni bod amgylchiadau'r plentyn y mae cynllun yn ymwneud ag ef wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid i'r awdurdod—

- (a) gwneud unrhyw asesiadau y mae'n barnu eu bod yn briodol, a
- (b) diwygio'r cynllun.'

Gwenda Thomas 177

Section 74, page 55, after line 27, insert—

'() Regulations under subsection (4)(c) must specify, in particular—

- (a) the persons who may request a review of a plan (on their own behalf or on behalf of another person);
- (b) the circumstances in which a local authority—
 - (i) may refuse to comply with a request for a review of a plan, and
 - (ii) may not refuse to do so.'

Adran 74, tudalen 55, ar ôl llinell 29, mewnosoder—

'() Rhaid i reoliadau o dan is-adran (4)(c) bennu, yn benodol—

- (a) y personau a gaiff ofyn am adolygiad o gynllun (ar eu rhan hwy eu hunain neu ar ran person arall);
- (b) o dan ba amgylchiadau—
 - (i) y caiff awdurdod lleol wrthod cydymffurfio â chais am adolygiad o gynllun, a
 - (ii) na chaiff awdurdod lleol wrthod gwneud hynny.'

Gwenda Thomas 178

Section 74, page 55, after line 27, insert –

‘() When preparing, reviewing or revising a plan under this section, a local authority must involve the child to whom the plan relates and any person with parental responsibility for the child.’.

Adran 74, tudalen 55, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

‘() Wrth lunio, adolygu neu ddiwygio cynllun o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol gynnwys y plentyn y mae’r cynllun yn ymwneud ag ef ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.’.

Gwenda Thomas 179

Section 74, page 55, line 33, leave out subsection (6).

Adran 74, tudalen 55, llinell 35, hepgorer is-adran (6).

Gwenda Thomas 180

Section 75, page 56, line 8, leave out ‘consultation in connection with’ and insert ‘further persons whom a local authority must involve in’.

Adran 75, tudalen 56, llinell 8, hepgorer ‘ymgyngori mewn cysylltiad â llunio’ a mewnosoder ‘personau pellach y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu cynnwys yn y broses o lunio’.

Gwenda Thomas 181

Section 75, page 56, line 16, leave out ‘particular’ and insert ‘further’.

Adran 75, tudalen 56, llinell 17, hepgorer ‘penodol’ a mewnosoder ‘pellach’.

Gwenda Thomas 60

Schedule 1, page 127, line 10, leave out –

‘The persons liable to contribute are –

- (a) where the child is under 16, a person with parental responsibility for the child;
- (b) where the child has attained the age of 16, the child or a person’

And insert –

‘A person is liable to contribute if he or she is an adult’.

Atodlen 1, tudalen 127, llinell 10, hepgorer –

‘Dyma’r personau sy’n atebol am gyfrannu –

- (a) pan fo’r plentyn o dan 16 oed, person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;
- (b) pan fo’r plentyn wedi cyrraedd 16 oed, y plentyn neu berson’

A mewnosoder –

‘Mae person yn atebol am gyfrannu os yw’n oedolyn’.

Gwenda Thomas **281**

Schedule 1, page 129, after line 35, insert –

- ‘() Sub-paragraph (1) ceases to have effect on the day on which paragraph 120 of Schedule 11 to the Crime and Courts Act 2013 comes into force.’.

Atodlen 1, tudalen 129, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘() Mae is-baragraff (1) yn peidio â chael effaith ar y diwrnod y daw paragraff 120 o Atodlen 11 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 i rym.’.

Gwenda Thomas **182**

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version
Adran 86, tudalen 60, llinell 22, hepgorer ‘unrhyw beth’ a mewnosoder ‘dim’.

Gwenda Thomas **183**

Section 86, page 60, line 29, leave out subsection (7).
Adran 86, tudalen 60, llinell 30, hepgorer is-adran (7).

Gwenda Thomas **46**

Section 88, page 61, after line 20, insert –

- ‘() Regulations specifying a category for the purpose of subsection (1)(c) must also specify the local authority which must discharge the duties imposed by or under this section in relation to a child who falls within the specified category.’.

Adran 88, tudalen 61, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i reoliadau sy’n pennu categori at ddiben is-adran (1)(c) hefyd bennu’r awdurdod lleol y mae’n rhaid iddo gyflawni’r dyletswyddau a osodir gan, neu o dan, yr adran hon mewn perthynas â phlentyn sy’n dod o fewn y categori penodedig.’.

Gwenda Thomas **184**

Section 88, page 61, line 24, leave out ‘, support and assistance’ and insert ‘and other support’.
Adran 88, tudalen 61, llinell 25, hepgorer ‘, cefnogaeth a chymorth’ a mewnosoder ‘a chymorth arall’.

Gwenda Thomas **185**

Section 88, page 61, line 25, leave out ‘if that child seeks it from the authority’.
Adran 88, tudalen 61, llinell 26, hepgorer ‘os yw’r plentyn hwnnw’n gofyn i’r awdurdod amdanynt’.

Gwenda Thomas 186

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version
Adran 89, tudalen 62, llinell 26, hepgorer 'ddigon o ddealltwriaeth' a mewnosoder 'ddealltwriaeth ddigonol'.

Gwenda Thomas 187

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version
Adran 89, tudalen 62, llinell 31, hepgorer 'ddigon o ddealltwriaeth' a mewnosoder 'ddealltwriaeth ddigonol'.

Gwenda Thomas 188

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version
Adran 93, tudalen 65, llinell 13, hepgorer 'gyda'r bwriad o' a mewnosoder 'gyda golwg ar'.

Angela Burns 315

Section 94, page 65, after line 16, insert—

- '() The Welsh Ministers must by regulations make provision for the minimum standards which a local authority must achieve when it befriends a child in the exercise of its functions under subsection (1).'

Adran 94, tudalen 65, ar ôl llinell 18, mewnosoder—

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer y safonau gofynnol y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu sicrhau pan fydd yn ymgyfeillio â phlentyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1).'

Angela Burns 316

Section 94, page 65, after line 16, insert—

- '() The Welsh Ministers must issue guidance to a local authority about the exercise of its functions under subsection (1).
() Guidance issued under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 316*) must provide for the actions which a local authority must take when it befriends a child in the exercise of its functions under subsection (1).
() A local authority must have regard to guidance issued under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 316*) when exercising its functions under subsection (1).'

Adran 94, tudalen 65, ar ôl llinell 18, mewnosoder—

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod lleol ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1).
() Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 316*) ddarparu ar gyfer y camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd pan fydd yn ymgyfeillio â phlentyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1).

- () Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 316*) wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1).'

Gwenda Thomas 189

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version Adran 95, tudalen 66, llinell 38, hepgorer 'Sefydliad' a mewnosoder 'Sefydledig'.

Gwenda Thomas 190

Section 96, page 67, line 24, after 'for', insert 'a'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas 191

Section 97, page 68, line 13, leave out '(in addition to any other functions)'.

Adran 97, tudalen 68, llinell 13, hepgorer '(yn ychwanegol at unrhyw swyddogaethau eraill)'.

William Graham 75A

As an amendment to amendment 75, line 25, after 'support', insert '(including financial support)'.

Fel gwelliant i welliant 75, llinell 23, ar ôl 'arall', mewnosoder '(gan gynnwys cymorth ariannol)'.

William Graham 75B

As an amendment to amendment 75, after line 26, insert—

- '() Regulations may make further provision about post-18 living arrangements.'

Fel gwelliant i welliant 75, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

- '() Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach am drefniadau byw ôl-18.'

William Graham 75C

As an amendment to amendment 75, after line 26, insert—

- '() Every local authority shall give such publicity to post-18 living arrangements as they consider appropriate.'

Fel gwelliant i welliant 75, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

- '() Rhaid i bob awdurdod lleol roi unrhyw gyhoeddusrwydd i drefniadau byw ôl-18 y mae'n ystyried ei fod yn briodol.'

Gwenda Thomas

75

To insert a new section –

‘(1) Pathway assessments and plans: post-18 living arrangements

- (1) The responsible local authority for a category 1 young person who has been placed with a local authority foster parent must comply with subsection (2) when –
 - (a) carrying out an assessment in relation to the young person under section 98(1),
 - (b) preparing and maintaining a pathway plan for the young person under section 98(3), or
 - (c) reviewing the young person’s pathway plan under section 98(10).
- (2) The responsible local authority must determine whether a post-18 living arrangement would be appropriate for the young person after it ceases to look after him or her.
- (3) A “post-18 living arrangement” is an arrangement under which –
 - (a) a category 3 young person –
 - (i) who is under the age of 21, and
 - (ii) who was being looked after by a local authority when he or she reached the age of 18 and, immediately before ceasing to be looked after, was a category 1 young person, and
 - (b) a person (a “former foster parent”) who was the young person’s local authority foster parent immediately before he or she ceased to be looked after,
continue to live together after the young person has ceased to be looked after.
- (4) Where –
 - (a) the responsible local authority determines under subsection (2) that a post-18 living arrangement would be appropriate for the young person after it ceases to look after him or her, and
 - (b) the young person and his or her local authority foster parent wish to make a post-18 living arrangement,the responsible local authority must provide advice and other support under this Part in order to facilitate a post-18 living arrangement.’.

I fewnosod adran newydd –

‘(1) Asesiadau a chynlluniau llwybr: trefniadau byw ôl-18

- (1) Rhaid i’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am berson ifanc categori 1 sydd wedi ei leoli gyda rhiant maeth awdurdod lleol gydymffurfio ag is-adran (2) wrth –
 - (a) cynnal asesiad mewn perthynas â’r person ifanc o dan adran 98(1),
 - (b) llunio a chynnal cynllun llwybr ar gyfer y person ifanc o dan adran 98(3), neu
 - (c) adolygu cynllun llwybr y person ifanc o dan adran 98(10).
- (2) Rhaid i’r awdurdod lleol cyfrifol ddyfarnu a fyddai trefniant byw ôl-18 yn briodol ar gyfer y person ifanc ar ôl i’r awdurdod lleol roi’r gorau i ofalu amdano.
- (3) Mae “trefniant byw ôl-18” yn drefniant –

- (a) pan fo person ifanc categori 3—
 - (i) sydd o dan 21 oed, a
 - (ii) a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed ac a oedd, yn union cyn i'r gofal a ddarparwyd iddo ddod i ben, yn berson ifanc categori 1, a
 - (b) pan fo person (“cyn-riant maeth”) a oedd yn rhiant maeth awdurdod lleol i'r person ifanc yn union cyn i'r gofal a ddarparwyd iddo ddod i ben,
yn parhau i fyw gyda'i gilydd ar ôl i'r gofal a ddarparwyd i'r person ifanc ddod i ben.
- (4) Pan fo'r—
- (a) awdurdod lleol cyfrifol yn dyfarnu o dan is-adran (2) y byddai trefniant byw ôl-18 yn briodol ar gyfer y person ifanc ar ôl iddo roi'r gorau i ofalu amdano, a
 - (b) person ifanc a'i riant maeth awdurdod lleol yn dymuno gwneud trefniant byw ôl-18,
- rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol ddarparu cyngor a chymorth arall o dan y Rhan hon er mwyn hwyluso trefniant byw ôl-18.'.

Gwenda Thomas

192

Section 99, page 69, line 34, after 'in', insert 'kind or in'.

Adran 99, tudalen 69, llinell 32, ar ôl 'ffurf', mewnosoder 'da neu mewn'.

William Graham

76A

As an amendment to amendment 76, line 5, after 'support', insert '(including financial support)'.

Fel gwelliant i welliant 76, llinell 5, ar ôl 'arall', mewnosoder '(gan gynnwys cymorth ariannol)'.

Gwenda Thomas

76

Section 100, page 70, after line 14, insert—

- '() The responsible local authority for a category 3 young person who has a post-18 living arrangement must, in addition—
 - (a) monitor the arrangement, and
 - (b) if the authority considers that the arrangement is consistent with the young person's well-being, provide advice and other support to the young person and the former foster parent with a view to maintaining the arrangement.
- () In subsection (*first subsection to be introduced by amendment 76*) “post-18 living arrangement” has the meaning given by section (*section to be introduced by amendment 75*) and “former foster parent” has the same meaning as in that definition.'.

Adran 100, tudalen 70, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- '() Yn ogystal, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 3 sydd â threfniant byw ôl-18—
 - (a) monitro'r trefniant, a

(b) os yw'r awdurdod o'r farn bod y trefniant yn gyson â llesiant y person ifanc, ddarparu cyngor a chymorth arall i'r person ifanc a'r cyn-riant maeth gyda golwg ar gynnal y trefniant.

() Yn is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 76*) mae i "trefniant byw ôl-18" yr ystyr a roddir iddo gan adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 75*) ac mae i "cyn-riant maeth" yr un ystyr ag sydd iddo yn y diffiniad hwnnw'.

Gwenda Thomas

77

Section 100, page 70, line 15, after '(1)(d)', insert 'and (*first subsection to be inserted by amendment 76*)(b)'.

Adran 100, tudalen 70, llinell 15, ar ôl '(1)(d)', mewnosoder 'a (*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 76*)(b)'.

Gwenda Thomas

193

Section 106, page 74, line 8, leave out 'the' and insert 'a'.

Adran 106, tudalen 74, llinell 8, hepgorer 'yr'.

Gwenda Thomas

194

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 107, tudalen 74, llinell 14, hepgorer 'godî' a mewnosoder 'osod'.

Gwenda Thomas

195

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 107, tudalen 74, llinell 15, hepgorer 'godir' a mewnosoder 'osodir'.

Gwenda Thomas

47

Section 107, page 74, leave out lines 19 to 21 and insert—

'() may be imposed—

(i) on the young person who receives the support, if that person has reached the age of 18;

(ii) on a person with parental responsibility for the young person who receives the support, if the young person is under 18 years of age.'

Adran 107, tudalen 74, hepgorer llinellau 18 hyd at 19 a mewnosoder—

'() caniateir ei gosod—

(i) ar y person ifanc sy'n cael y cymorth, os yw'r person ifanc hwnnw wedi cyrraedd 18 oed;

(ii) ar berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y person ifanc sy'n cael y cymorth, os yw'r person ifanc o dan 18 oed.'

Gwenda Thomas

196

Section 107, page 74, line 29, leave out '64' and insert '59'.

Adran 107, tudalen 74, llinell 28, hepgorer '64' a mewnosoder '59'.

Gwenda Thomas

197

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 108, tudalen 75, llinell 8, hepgorer 'Sefydliad' a mewnosoder 'Sefydledig'.

Lindsay Whittle

331

To insert a new section –

'() "Post-18 living arrangements"

- (1) A local authority must provide advice and other support (including financial support) for any relevant person within its area in order to facilitate and maintain a post-18 living arrangement.
- (2) The duty under subsection (1) does not apply if –
 - (a) the relevant person does not wish to participate in a post-18 living arrangement, or
 - (b) the former local authority foster parent does not wish to participate in a post-18 living arrangement.
- (3) A "post-18 living arrangement" is an arrangement under which –
 - (a) a relevant person who was being looked after by a local authority when he or she reached the age of 18, and
 - (b) the former local authority foster parent,
continue to live together after the young person has ceased to be looked after.
- (4) Regulations must make provision for and in connection with the duty under subsection (1).
- (5) Regulations under this section must make provision about –
 - (a) who is a relevant person for the purposes of subsection (1);
 - (b) the types of support and advice that must be provided;
 - (c) how and to whom a local authority is to make available information about post-18 living arrangements.
- (6) In this section –

"former local authority foster parent" ("*cyn-riant maeth awdurdod lleol*") means a local authority foster parent with whom the relevant person was placed under section 72(6)(a) or (b);

"relevant person" ("*person perthnasol*") means a person specified in regulations made under subsection (4).'

An amendment relating to local authorities' duties in relation to post-18 living arrangements.

I fewnosod adran newydd –

‘() “Trefniadau byw ôl-18”

- (1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth arall (gan gynnwys cymorth ariannol) ar gyfer unrhyw berson perthnasol o fewn ei ardal er mwyn hwyluso a chynnal trefniant byw ôl-18.
- (2) Nid yw’r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys –
 - (a) os nad yw’r person perthnasol yn dymuno cymryd rhan mewn trefniant byw ôl-18, neu
 - (b) os nad yw cyn-riant maeth awdurdod lleol yn dymuno cymryd rhan mewn trefniant byw ôl-18.
- (3) Mae “trefniant byw ôl-18” yn drefniant lle mae –
 - (a) person perthnasol a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed, a
 - (b) cyn-riant maeth awdurdod lleol,yn parhau i fyw gyda’i gilydd ar ôl i’r gofal a ddarparwyd i’r person ifanc ddod i ben.
- (4) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â’r ddyletswydd o dan is-adran (1).
- (5) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch –
 - (a) y sawl sy’n berson perthnasol at ddibenion is-adran (1);
 - (b) y mathau o gymorth a chyngor y mae’n rhaid eu darparu;
 - (c) sut ac i bwy y mae’r awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth ynghylch trefniadau byw ôl-18.
- (6) Yn yr adran hon –

ystyr “cyn-riant maeth awdurdod lleol” (“*former local authority foster parent*”) yw rhiant maeth awdurdod lleol y lleolwyd y person perthnasol gydag ef o dan adran 72(6)(a) neu (b);

ystyr “person perthnasol” (“*relevant person*”) yw person a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (4).’.

Gwelliant sy’n ymwneud â dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau byw ôl-18.

Gwenda Thomas

198

Section 112, page 78, line 31, leave out ‘function’ and insert ‘duty’.

Adran 112, tudalen 78, llinell 33, hepgorer ‘Swyddogaeth’ a mewnosoder ‘Dyletswydd’.

Gwenda Thomas

199

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 112, tudalen 78, llinell 34, hepgorer ‘perfformio’ a mewnosoder ‘cyflawni’.

Kirsty Williams

320

Section 116, page 81, leave out lines 7 to 10 and insert—

- () is unable to protect himself or herself against the abuse or neglect or the risk of it, and
- () has needs for care and support (whether or not the authority is meeting any of those needs).'

Adran 116, tudalen 81, hepgorer llinellau 7 hyd at 10 a mewnosoder—

- () yn methu ag amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, ac
- () y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).'

Gwenda Thomas

200

Section 116, page 81, line 14, after 'whom', insert—

- ' and
- () decide whether any such action should be taken'.

Adran 116, tudalen 81, llinell 15, ar ôl 'bwy', mewnosoder—

- ' a
- () penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath'.

Gwenda Thomas

201

Section 116, page 81, line 15, leave out '46' and insert '45(4)'.

Adran 116, tudalen 81, llinell 16, hepgorer '46' a mewnosoder '45(4)'.

Gwenda Thomas

202

Section 117, page 82, line 14, leave out 'that' and insert 'at which'.

Adran 117, tudalen 82, llinell 15, hepgorer 'y caniateir' a mewnosoder 'pan ganiateir'.

Gwenda Thomas

203

Section 118, page 82, line 37, leave out 'the' at the second place where it appears.

Adran 118, tudalen 82, llinell 38, hepgorer 'eithrio'r' a mewnosoder 'eithrio'.

William Graham

87

To insert a new section –

‘(1) Removal orders

- (1) A local authority may apply to a justice of the peace for an order (“a removal order”) which authorises –
 - (a) an authorised officer of the local authority to move a specified person to a specified place within 72 hours of the order being made, and
 - (b) the local authority to take such reasonable steps as it thinks fit for the purpose of protecting the moved person from harm.
- (2) A removal order expires 7 days (or such shorter period as may be specified in the order) after the day on which the specified person is moved in pursuance of the order.’.

I fewnosod adran newydd –

‘(1) Gorchmynion symud

- (1) Caiff awdurdod lleol wneud cais i ynad heddwch am orchymyn (“gorchymyn symud”) sy’n awdurdodi –
 - (a) swyddog awdurdodedig o’r awdurdod lleol i symud person penodedig i fan penodedig o fewn 72 awr ar ôl i’r gorchymyn gael ei wneud, a
 - (b) yr awdurdod lleol i gymryd unrhyw gamau rhesymol y gwêl yn dda at ddiben amddiffyn y person a symudwyd rhag cael ei niweidio.
- (2) Daw gorchymyn symud i ben saith niwrnod (neu gyfnod llai a gaiff ei bennu yn y gorchymyn) ar ôl y diwrnod y symudir y person penodedig yn unol â’r gorchymyn.’.

William Graham

88

To insert a new section –

‘(1) Criteria for granting a removal order

- (1) A justice of the peace may grant a removal order only if satisfied –
 - (a) that the person in respect of whom the order is sought is an adult at risk who is likely to be seriously harmed if not moved to another place, and
 - (b) as to the availability and suitability of the place to which the adult at risk is to be moved.
- (2) A removal order may require a local authority to allow any specified person to have contact with the adult at risk to whom the order relates –
 - (a) at any specified time during which the order has effect, and
 - (b) in accordance with any specified conditions.
- (3) But the justice of the peace, before including such a requirement, must have regard to –
 - (a) any representations made by the local authority as to whether persons should be allowed to have contact with the adult at risk, and

- (b) any relevant representations made by –
 - (i) the adult at risk,
 - (ii) any person who wishes to be able to have contact with the adult at risk, and
 - (iii) any other person who has an interest in the adult at risk's well-being or property.'.

I fewnosod adran newydd –

'() Y meini prawf ar gyfer rhoi gorchymyn symud

- (1) Caiff ynad heddwch roi gorchymyn heddwch dim ond os yw wedi cael ei fodloni –
 - (a) bod y person y ceisir y gorchymyn ar ei ran yn oedolyn sy'n wynebu risg ac sy'n debygol o gael ei niweidio'n ddifrifol os na symudir ef i fan arall, a
 - (b) o ran argaeledd ac addasrwydd y man y symudir yr oedolyn sy'n wynebu risg iddo.
- (2) Caiff gorchymyn symud ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ganiatáu i unrhyw berson penodedig gael cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg ac y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef –
 - (a) ar unrhyw adeg benodedig y mae'r gorchymyn yn cael effaith, a
 - (b) yn unol ag unrhyw amodau penodedig.
- (3) Ond rhaid i'r ynad heddwch, cyn cynnwys gofyniad o'r fath, roi sylw i –
 - (a) unrhyw sylwadau a wnaed gan yr awdurdod lleol o ran a ddylid caniatáu i bersonau gael cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg, a
 - (b) unrhyw sylwadau perthnasol a wnaed gan –
 - (i) yr oedolyn sy'n wynebu risg,
 - (ii) unrhyw berson sy'n dymuno y gall gael cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg, a
 - (iii) unrhyw berson arall y mae ganddo ddiddordeb yn llesiant neu eiddo'r oedolyn sy'n wynebu risg.'.

William Graham

89

To insert a new section –

'() Right to move an adult at risk

- (1) An authorised officer of a local authority may enter any place in order to move an adult at risk from the place in pursuance of a removal order.
- (2) A right to enter any place under subsection (1) includes a right to enter any adjacent place for the same purpose.'.

I fewnosod adran newydd –

'() Yr hawl i symud oedolyn sy'n wynebu risg

- (1) Caiff swyddog awdurdodedig awdurdod lleol gael mynediad i unrhyw fan er mwyn

symud oedolyn sy'n wynebu risg o'r man hwnnw yn unol â gorchymyn symud.

- (2) Mae hawl i gael mynediad i unrhyw fan o dan is-adran (1) yn cynnwys hawl i gael mynediad i unrhyw fan cyfagos at yr un diben.'

William Graham

90

To insert a new section –

'() Variation or recall of removal order

- (1) A justice of the peace may vary or recall a removal order if satisfied that the variation or recall is justified by a change in the facts or circumstances in respect of which the order was granted or, as the case may be, last varied.
- (2) A removal order may not be varied so as to authorise the local authority to do anything after the day which falls 7 days after the day on which the adult at risk to whom the order relates is moved in pursuance of the order.
- (3) Where an adult at risk has been moved from any place in pursuance of a removal order which is recalled, the justice of the peace may direct the local authority to –
 - (a) return the adult to that place, or
 - (b) take the adult to any other place which the justice of the peace, having regard to the adult's wishes, may specify.
- (4) A removal order may be varied or recalled only on the application of –
 - (a) the adult at risk to whom the order relates,
 - (b) any person who has an interest in the adult at risk's well-being or property, or
 - (c) the local authority.'

I fewnosod adran newydd –

'() Amrywiad ar orchymyn symud neu ei alw yn ôl

- (1) Caiff ynad heddwch amrywio gorchymyn symud neu ei alw yn ôl os yw wedi'i fodloni bod modd cyfiawnhau'r amrywiad neu'r penderfyniad i'w alw yn ôl gan newid yn y ffeithiau neu'r amgylchiadau y rhoddwyd y gorchymyn neu, yn ôl y digwydd, y cafodd ei amrywio ddiwethaf.
- (2) Ni chaiff gorchymyn symud ei amrywio i awdurdodi'r awdurdod lleol i wneud unrhyw beth yn unol â'r gorchymyn ar ôl y diwrnod sy'n digwydd saith niwrnod ar ôl y diwrnod y symudir yr oedolyn sy'n wynebu risg y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef.
- (3) Pan fydd oedolyn sy'n wynebu risg wedi'i symud o unrhyw fan yn unol â gorchymyn symud a gaiff ei alw yn ôl, caiff yr ynad heddwch gyfarwyddo'r awdurdod lleol i –
 - (a) dychwelyd yr oedolyn i'r man hwnnw, neu
 - (b) cymryd yr oedolyn i unrhyw fan arall y bydd yr ynad heddwch, gan roi sylw i ddymuniadau'r oedolyn, yn ei bennu.
- (4) Caiff gorchymyn symud ei amrywio neu ei alw yn ôl dim ond ar gais –
 - (a) yr oedolyn sy'n wynebu risg y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef,

- (b) unrhyw berson y mae ganddo ddiddordeb yn llesiant neu eiddo'r oedolyn sy'n wynebu risg, neu
- (c) yr awdurdod lleol.'

William Graham

91

To insert a new section –

'(1) Protection of a moved person's property

- (1) The local authority must take reasonable steps to prevent any property owned or controlled by a person moved in pursuance of a removal order from being lost or damaged because –
 - (a) the moved person is unable to protect, care for or otherwise deal with it, and
 - (b) no other suitable arrangements have been or are being made for the purposes of preventing such loss or damage.
- (2) An authorised officer of the local authority may enter any place which the authority knows or believes to contain any property in respect of which it has a duty under subsection (1) in order to enable or assist the local authority to perform that duty.
- (3) A right to enter any place under subsection (2) includes a right to enter any adjacent place for the same purpose.
- (4) An authorised officer of the local authority who finds any property in respect of which the authority has a duty under subsection (1) may do anything which the officer considers reasonably necessary in order to prevent the property from being lost or damaged, and may, in particular, move the property to another place.
- (5) The local authority is not entitled to recover from a moved person any expenses it incurs in performing functions under this section in relation to property owned or controlled by that person.
- (6) The duty imposed by subsection (1) applies only while the removal order concerned has effect.
- (7) A local authority which moves any property in pursuance of the duty imposed by subsection (1) must, as soon as is reasonably practicable after the removal order concerned ceases to have effect, return the property to the adult concerned.'

I fewnosod adran newydd –

'(1) Gwarchod eiddo person a symudir

- (1) Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i atal unrhyw eiddo sy'n cael ei berchenogi neu ei reoli gan berson a symudir yn unol â gorchymyn symud rhag cael ei golli neu ei ddifrodi –
 - (a) am nad yw'r person yn gallu gwarchod, gofalu neu ymdrin ag ef fel arall, a
 - (b) am nad oes trefniadau addas eraill wedi eu gwneud neu yn cael eu gwneud at ddibenion atal colled neu ddifrod o'r fath.
- (2) Caiff swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol gael mynediad i unrhyw fan y mae'r awdurdod yn gwybod neu yn credu sy'n cynnwys unrhyw eiddo y mae ganddo

ddyletswydd yn ei gylch o dan is-adran (1) er mwyn galluogi neu gynorthwyo'r awdurdod lleol i gyflawni'r ddyletswydd honno.

- (3) Mae hawl i gael mynediad i unrhyw fan o dan is-adran (2) yn cynnwys hawl i gael mynediad i unrhyw fan cyfagos at yr un diben.
- (4) Caiff swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol sy'n dod o hyd i unrhyw eiddo y mae gan yr awdurdod ddyletswydd yn ei gylch o dan is-adran (1) wneud unrhyw beth y mae'r swyddog yn ei ystyried yn rhesymol er mwyn atal yr eiddo rhag cael ei golli neu ei ddirodi, a chaiff, yn benodol, symud yr eiddo i le arall.
- (5) Nid oes gan yr awdurdod lleol hawl i adennill unrhyw dreuliau wrth gyflawni swyddogaethau o dan yr adran hon gan berson a symudir mewn perthynas ag eiddo sy'n cael ei berchenogi neu ei reoli gan y person hwnnw.
- (6) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) ond yn gymwys tra bo'r gorchymyn symud o dan sylw yn cael effaith.
- (7) Rhaid i awdurdod lleol sy'n symud unrhyw eiddo yn unol â'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) ddychwelyd yr eiddo i'r oedolyn o dan sylw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r gorchymyn symud o dan sylw ddod i ben.'

William Graham

92

Page 83, line 7, leave out section 119.

Tudalen 83, llinell 8, hepgorer adran 119.

Gwenda Thomas

204

Section 120, page 83, line 16, leave out 'the' at the second place where it appears.

Adran 120, tudalen 83, llinell 18, hepgorer 'eithrio'r' a mewnosoder 'eithrio'.

Gwenda Thomas

205

Section 121, page 84, after line 3, insert—

- '() The Welsh Ministers must consult the Secretary of State before giving guidance under subsection (1).'

Adran 121, tudalen 84, ar ôl llinell 3, mewnosoder—

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn rhoi canllawiau o dan is-adran (1).'

Gwenda Thomas

206

Section 124, page 85, after line 13, insert—

- '() the Secretary of State to the extent that the Secretary of State is discharging functions under sections 2 and 3 of the Offender Management Act 2007 in relation to Wales;'

Adran 124, tudalen 85, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- () yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 o ran Cymru;'.

Gwenda Thomas 207

Section 124, page 85, line 28, leave out 'Board's' and insert 'Board'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas 208

Section 124, page 85, line 30, leave out 'Board's' and insert 'Board'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas 209

Section 124, page 85, line 34, leave out 'as a Safeguarding Board partner' and insert 'or the governor of a prison or secure training centre (or, in the case of a contracted out prison or secure training centre, its director) as a Safeguarding Board partner unless the Secretary of State consents'.

Adran 124, tudalen 85, llinell 35, hepgorer 'fel partner Bwrdd Diogelu' a mewnosoder 'na llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel (neu, yn achos carchar sydd wedi ei gontractio allan neu ganolfan hyfforddi ddiogel sydd wedi ei chontractio allan, y cyfarwyddwr) fel partner Bwrdd Diogelu oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio'.

Gwenda Thomas 210

Section 124, page 86, line 1, after 'who', insert 'or which'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas 211

Section 124, page 86, after line 3, insert –

'(11) In this section –

- (a) a reference to a prison includes a young offender institution;
- (b) a reference to a contracted out secure training centre has the meaning given by section 15 of the Criminal Justice and Public Order Act 1994;
- (c) a reference to a contracted out prison has the meaning given by section 84(4) of the Criminal Justice Act 1991.'

Adran 124, tudalen 86, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

'(11) Yn yr adran hon –

- (a) mae cyfeiriad at garchar yn cynnwys sefydliad troseddwyr ifanc;
- (b) mae i gyfeiriad at ganolfan hyfforddi ddiogel wedi ei chontractio allan yr ystyr a

roddir i “contracted out secure training centre” gan adran 15 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994;

- (c) mae i gyfeiriad at garchar sydd wedi ei gontractio allan yr ystyr a roddir i “contracted out prison” gan adran 84(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991.’.

Gwenda Thomas **212**

Section 125, page 86, line 31, leave out ‘Board’s’ and insert ‘Board’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas **213**

Section 127, page 87, line 19, after ‘whom’, insert ‘or to which’.

Adran 127, tudalen 87, llinell 22, hepgorer ‘iddynt’ a mewnosoder ‘iddo’.

Gwenda Thomas **214**

Section 127, page 87, line 27, after ‘whom’, insert ‘or to which’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas **215**

Section 127, page 87, line 28, after ‘request’, insert—

‘unless the person or body considers that doing so would—

- (a) be incompatible with the duties of the person or body, or
- (b) otherwise have an adverse effect on the exercise of the functions of the person or body’.

Adran 127, tudalen 87, llinell 31, ar ôl ‘cais’, mewnosoder—

‘oni bai bod y person neu’r corff o’r farn y byddai gwneud hynny—

- (a) yn anghydnaws â dyletswyddau’r person neu’r corff, neu
- (b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau’r person neu’r corff’.

Gwenda Thomas **216**

Section 127, page 87, after line 28, insert—

- ‘() A qualifying person or body who decides not to comply with a request under subsection (1) must give the Safeguarding Board which made the request written reasons for the decision.’.

Adran 127, tudalen 87, ar ôl llinell 31, mewnosoder—

- ‘() Rhaid i berson neu gorff cymhwysol sy’n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (1) roi i’r Bwrdd Diogelu a wnaeth y cais resymau ysgrifenedig dros y penderfyniad.’.

Gwenda Thomas 217

Section 127, page 87, line 30, after 'whom', insert 'or to which'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas 218

Section 127, page 87, line 35, leave out 'but if that person or body is a Minister of the Crown, the duty in subsection (4) applies only in relation to a request for information by a Safeguarding Children Board;'.

Adran 127, tudalen 88, llinell 4, hepgorer '; ond os yw'r person neu'r corff hwnnw yn un o Weinidogion y Goron, nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (4) yn gymwys ond mewn perthynas â chais am wybodaeth oddi wrth Fwrdd Diogelu Plant'.

Gwenda Thomas 219

Section 128, page 88, after line 16, insert—

'(4) The Welsh Ministers must consult the Secretary of State before making regulations under subsection (3) which require payments to be made by a Safeguarding Board partner mentioned in section 124(2)(b), (*paragraph to be inserted by amendment 206*) or (e).'

Adran 128, tudalen 88, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

'(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod taliadau yn cael eu gwneud gan bartner Bwrdd Diogelu a grybwyllwyd yn adran 124(2)(b), (*paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 206*) neu (e).'

Gwenda Thomas 220

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 131, tudalen 89, llinell 4, ar ôl 'ymgyngori', mewnosoder 'ar y gorchymyn drafft arfaethedig'.

Gwenda Thomas 221

Section 131, page 89, after line 6, insert—

'() the Secretary of State,'.

Adran 131, tudalen 89, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

'() yr Ysgrifennydd Gwladol,'.

Gwenda Thomas 222

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 131, tudalen 89, hepgorer llinell 10.

Gwenda Thomas

224

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version
Adran 132, tudalen 89, llinell 38, hepgorer 'cyfeirio' a mewnosoder 'gyfeiriadau'.

Gwenda Thomas

223

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version
Adran 132, tudalen 89, llinell 34, hepgorer 'cyfeirio' a mewnosoder 'gyfeiriadau'.

Lindsay Whittle

98

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Kirsty Williams, Simon Thomas

To insert a new section –

'PART ()

AMENDMENT TO THE CHILDREN ACT 2004

Removal of reasonable punishment defence

() Removal of reasonable punishment defence

(1) Section 58 of the Children Act 2004 is amended as follows.

(2) In subsection (2) –

(a) at the end of paragraph (c) for “.” substitute “;”;

(b) after paragraph (c) insert –

“(d) an offence under section 39 of the Criminal Justice Act 1988 (common assault and battery) if the offence took place in Wales;

(e) any offence involving battery of a child where the battery is committed in Wales.”.

(3) For subsection (3) substitute –

“(3) Battery of a child cannot be justified in any civil proceedings on the ground that it constituted reasonable punishment if –

(a) the battery took place in England and caused actual bodily harm, or

(b) the battery took place in Wales (whether or not it caused actual bodily harm).”.

I fewnosod adran newydd –

'RHAN ()

DIWYGIO DEDDF PLANT 2004

Dileu'r amddiffyniad cosb resymol

() Dileu'r amddiffyniad cosb resymol

(1) Diwygir adran 58 o Ddeddf Plant 2004 fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2) –

(a) ar ddiwedd paragraff (c) yn lle “.” rhodder “;”;

(b) ar ôl paragraff (c) mewnosoder –

“(d) an offence under section 39 of the Criminal Justice Act 1988 (common assault and battery) if the offence took place in Wales;

(e) any offence involving battery of a child where the battery is committed in Wales.”.

(3) Yn lle is-adran (3) rhodder –

“(3) Battery of a child cannot be justified in any civil proceedings on the ground that it constituted reasonable punishment if –

(a) the battery took place in England and caused actual bodily harm, or

(b) the battery took place in Wales (whether or not it caused actual bodily harm).”.

Gwenda Thomas

282

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Atodlen 2, tudalen 132, Tabl 1, llinell 34, colofn 2, hepgorer 'o dan gadwad' a mewnosoder 'a gedwir yn gaeth'.

